**BWRDD PENSIWN RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Iau, 7 Awst 2025 am 10am.

**Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -**

Yr Athro Hugh Coombs – Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Rob Whiles – Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr)
Darren Griffiths - Cynrychiolydd yr Undebau Llafur (CBS Merthyr Tudful)

**Swyddogion yn bresennol**

Mr I Traylor – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Mrs C Black, Rheolwr y Gwasanaethau Pensiynau
Ms Y Keitch, Blaen Gyfrifydd
Ms C Bartlett, Carfan Pensiynau a'r Drysorlys

**Ymddiheuriadau**

David Francis, Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

## 11. DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Nodwyd cyfrinachedd y trafodaethau.

## 12. COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN AC AGENDA PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar **5 Mehefin 2025** eu **CADARNHAU** yn gofnod cywir o'r cyfarfod (yn amodol ar nodi y dylai Cofnod 6 ddarllen 'Hyfforddiant Partneriaeth Pensiwn Cymru ym mis Mawrth a mis Mehefin *2025*' (ac nid 2026 fel y nodir) a bod y gair 'appraised' yng Nghofnod 5 y fersiwn Saesneg wedi'i sillafu'n anghywir).

**Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod ar 5 Mehefin 2025**

- **Tudalen 5** - Mae canlyniad yr ymgynghoriad ynghylch grantiau marwolaeth wedi'i gyhoeddi. Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai gweinyddwyr cynlluniau pensiwn, yn hytrach na chynrychiolwyr personol, yn atebol am drefniadau adrodd a thalu unrhyw Dreth Etifeddiaeth ar gydran pensiwn ystâd. Serch hynny, ni fydd y cynnig yn cael ei fwrw ymlaen, yn lle hynny bydd cynrychiolwyr personol bellach yn atebol am drefniadau adrodd a thalu Treth Etifeddiaeth ar unrhyw gronfeydd pensiwn a buddion marwolaeth sydd ddim wedi’u defnyddio. Bydd y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn darparu nodiadau canllaw ynghylch gofynion gweinyddu.

- **Partneriaeth Pensiwn Cymru** - Cadarnhawyd bod y ddolen i'r ymatebion i'r ymgynghoriad CPLIL: Addas ar gyfer y Dyfodol wedi'i ddosbarthu i bawb yn ôl y cais.

- Tudalen 5 - Lansiad 'meddal' fydd y porth newydd 'Fy Mhensiwn Ar-lein'. Bydd cyfathrebu ehangach yn cael ei gynnwys gyda'r Datganiadau Buddion Blynyddol.

- Tudalen 6 - Llongyfarchwyd y garfan ar ganlyniad adroddiad archwilio diweddar mewn perthynas â McCloud a chydymffurfiaeth â chod newydd y Rheoleiddiwr.

- Tudalen 6 - Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw newidiadau wedi bod i weithdrefnau pleidleisio BlackRock a Robeco ar ddaliadau sylfaenol yn yr Unol Daleithiau yn dilyn canllawiau newydd gan SEC, mae eu hymgysylltiad yn parhau heb ei newid.

- Tudalen 8 – Cadarnhawyd bod dolenni i Fwletinau perthnasol y CLIL wedi'u cynnwys ar yr agenda ac y bydd hyn yn parhau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn ôl y cais.

**Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin**

- Roedd y Bwrdd yn falch o nodi'r diweddariad a ddosbarthwyd gan garfan TGCh RhCT drwy e-bost ynghylch cynnydd y grŵp seiber cydweithredol WARP, amlder cyfarfodydd a chwmpas ei waith. Cytunwyd y bydd diweddariad pellach yn cael ei rhoi maes o law. Trafododd y Bwrdd y datblygiad cadarnhaol o ran seiberddiogelwch, gan nodi'r camau sydd ar waith i adrodd am doriadau seiber (fel sydd wedi'u cynnwys ym mholisi Torri Rheolau Pensiwn y Gronfa).

- **CYTUNODD** y Bwrdd bod yr holl bwyntiau gweithredu a restrwyd yn dilyn y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Mehefin wedi cael eu 'gweithredu' yn ôl y bwriad.

- Nodwyd bod Cofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a Phartneriaeth Pensiwn Cymru a gafodd eu hadolygu wedi'u dominyddu'n naturiol gan agweddau cynnydd/gwaith/amserlen Prosiect yr Wyddfa i gefnogi'r trefniadau llywodraethu posibl.

(Nodwyd hefyd y byddai diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach ar yr agenda gan y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Grŵp – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen).

**13. <u>PANEL YMGYNGHORI - BUDDSODDI A GWEINYDDU</u>**

Rhoddodd y Blaen Gyfrifydd ddiweddariad ar y Panel Ymgynghori - Buddsoddi a Gweinyddu a gynhaliwyd ar 2 Mehefin, y gwahoddwyd Cwmnïau Pensiwn Mercer a Baillie Gifford yn ogystal â'r holl reolwyr sylfaenol iddo. Cafodd y pwyntiau gweithredu eu trafod.

Dywedodd y Blaen Gyfrifydd ei fod wedi bod yn chwarter anwadal gan fod y 7 cwmni mawr (Apple, Microsoft, Alphabet, Nvidia, Tesla, Amazon a Meta) yn parhau i ddominyddu'r farchnad gyda chymaint o werth wedi'i fuddsoddi mewn cyn lleied o gwmnïau, a'i fod yn profi i fod yn farchnad anodd. Gyda gwerth cyffredinol y Gronfa yn £4,783 miliwn a'r lefel ariannu gyfredol yn 113.5%, roedd disgwyl cynnal adolygiad arall o atebolrwydd asedau i sicrhau bod y cydbwysedd cywir wedi'i gyflawni.

Gyda Baillie Gifford yn tangyflawni eto yn y chwarter diwethaf, cynghorodd y Blaen Gyfrifydd y byddai eu cyflawniad yn parhau i gael ei fonitro. Mae Baillie Gifford wedi cydnabod eu tangyflawniad ac wedi ymrwymo i'w hathroniaeth graidd a fydd, gobeithio, yn eu gweld yn adfer, fel y maen nhw wedi'i wneud o'r blaen. Nododd y Bwrdd y sefyllfa ynghylch Cronfa Seilwaith Adnewyddadwy BlackRock ac effaith dylanwadau geo-wleidyddol ar fuddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniad asedau'r Gronfa yn ôl dosbarth asedau o'i gymharu â'r meincnod targed ar 31 Rhagfyr 2024 gyda chyfeiriad penodol at y targed Ecwiti o 54%. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion gadarnhau eto y byddai adolygiad pellach o atebolrwydd asedau yn dilyn yr ymarfer Prisio 2025 y flwyddyn nesaf.

Nododd y Bwrdd fod Cronfa Ecwiti Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi methu â chyflawni ei meincnod, gan fod cronfeydd tebyg wedi profi'r un heriau o ran cyflawniad a nododd fod y Gronfa'n edrych tuag at fuddsoddiad hirdymor wrth iddi drawsnewid i sero net. Fe wnaeth y Bwrdd gydnabod mai barn wybodus o safbwynt llywodraethu oedd hyn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion ddiweddariad ar y pum taliad hwyr a nodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Atgoffodd y Bwrdd fod pob taliad hwyr yn cael ei gofnodi a'i adrodd i'r Bwrdd a'r Panel, a bod y Cyflogwyr yn cael eu cysylltu i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau. O ystyried y cwantwm a'r rhesymeg a ddarparwyd, cytunodd y Bwrdd â'r Panel nad yw'r taliadau hwyr yn gyfystyr â thoriad 'sylweddol' at ddibenion adrodd ffurfiol.

Rhoddwyd ystyriaeth bellach i fanteision cynyddu niferoedd aelodau'r Bwrdd, ac fe gynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai angen i'r Cyngor Llawn gadarnhau unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd. Cytunwyd y byddai cynyddu nifer yr aelodau yn cefnogi unrhyw absenoldebau annisgwyl yn y dyfodol.

Gofynnodd y Bwrdd am gael gweld yr Ymateb Cymru Gyfan ac Ymateb y CLlL i'r Ymgynghoriad Mynediad a Thegwch cyn gwneud gwelliannau i reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i hyrwyddo 'mynediad a thegwch' i aelodau ei gynllun a lansiwyd ar 15 Mai gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG). Cytunwyd y byddai'n cael ei ddarparu yn dilyn y cyfarfod.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion wybod am y canlynol:

- Bydd yr Oedran Pensiwn Arferol yn cynyddu o 55 oed i 57 ar 6 Ebrill 2028 - nododd y byddai hyn yn newid sylweddol a fydd yn gofyn am gyfathrebu priodol i gynghori aelodau cyn y dyddiad gweithredu ym mis Ebrill 2028;

- Cytunwyd y byddai Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau (PDP) Genedlaethol yn cael ei thrafod yn ddiweddarach ar yr agenda;

- Cadarnhawyd bod ymgynghoriad CPLIL “Addas ar gyfer y Dyfodol,” a ddaeth i ben ar 16 Ionawr 2025, wedi’i ddosbarthu i aelodau’r Bwrdd. Byddai diweddariad pellach a mwy manwl yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach ar yr agenda;

- Mae gweithgaredd ymarfer Prisio 2025 ar y gweill gyda'r lefel Cyllido 'Cyffredinol' ar 31 Rhagfyr 2024 sydd wedi gwella eto i 113.5%, sy'n sefyllfa gadarnhaol;

- Fe wnaeth y Bwrdd gydnabod bod dyddiad cau Datganiadau Buddion Blynyddol 2025, sef 31 Awst 2025, ar y trywydd iawn ac y byddai trafodaeth bellach ar y Datganiadau Buddion Blynyddol yn cael ei chodi yn ddiweddarach ar yr agenda;

- O ran yr ymarfer 'Prawf Bywyd' fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae chwech o gyfrifon aelodau wedi cael eu hatal wedi hynny;

- Darparwyd diweddariad ynghylch McCloud (tanategu), nododd y Bwrdd fod yr Adolygiad Archwilio Mewnol (2024/25) o gynnydd y Gronfa yn darparu 'sicrwydd sylweddol' (gan ddangos pwysigrwydd sicrwydd annibynnol);

- 'I-Connect' - Darparwyd diweddariad mewn perthynas â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, y cyflogwr olaf i ymuno. Roedd RhCT wedi cyfarfod â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ac maen nhw wedi cadarnhau eu rhwymedigaethau;

- Roedd y Bwrdd wedi cydnabod yn flaenorol fod niferoedd Hunanwasanaeth yr Aelodau yn gadarnhaol ac yn dal i gynyddu, gydag ymrwymiad y byddai'r ddolen 'Porth Ar-lein Fy Mhensiwn' wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd er mwyn iddyn nhw weld y porth diweddaraf â'u llygaid eu hunain;

- Darparwyd diweddariad ar drosglwyddiadau cyflogwyr/mewnol a gwybodaeth am y ddau dderbyniad newydd a gytunwyd i'r Gronfa;

- Darparwyd diweddariad mewn perthynas â'r terfyniadau canlynol, Valleys to Coast a Chonsortiwm Canolbarth y De (yr olaf yn weithredol o 1 Medi 2025 gyda throsglwyddiad i awdurdodau cyfansoddol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd);

- Nododd y Bwrdd yr ymateb cadarnhaol gan y Panel i'r amrywiol fentrau a gafodd eu trafod gan gydnabod bod y garfan hefyd yn cynnal y busnes o ddydd i ddydd er gwaethaf maint y gwaith a'r targedau heriol o ran amserlenni'r safonau gwasanaeth allweddol;

- Rhoddwyd gwybod i aelodau'r Bwrdd am ddatblygiad y garfan,

    - mae tair prentisiaeth yn symud ymlaen yn dda;

- mae'r maes Gwasanaeth yn cymryd rhan yn y cynllun prentisiaeth newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2025;
- tri secondiad GR5 i swyddi Swyddog Pensiynau;
- cyfweliadau cyn bo hir i lenwi'r swyddi gwag GR5 sydd ar ôl yn dilyn y secondiadau; ac
- mae dau swyddog Gradd 4 yn ymgymryd â chymhwyster APE (Lefel TGAU).

Roedd y Bwrdd yn falch o glywed am y cynnydd ac ymrwymiad y maes Gwasanaeth i 'dyfu ein talent ein hunain' trwy lwybrau gyrfaoedd wedi'u diffinio'n glir;

**<u>Newyddion Diweddaraf am Bartneriaeth Pensiwn Cymru</u>**

Darparwyd diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru a chafodd y Bwrdd wybod mai gwerth cyfanswm asedau cronedig Partneriaeth Pensiwn Cymru ym mis Mawrth 2025 oedd £19.3 biliwn. O ran y gwaith sy'n gysylltiedig â stiwardiaeth, mae esblygiad y mandadau goddefol ar agor i bob buddsoddwr ac yn symud i gronfa bwrpasol Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gwaith wedi dechrau ar gyflwyniad 2025 ar gyfer Cod Stiwardiaeth y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). Mae'r cynnig ar adrodd ar effaith Economi Dda wedi'i gytuno (am gyfnod o 3 blynedd).

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Polisi Hinsawdd, y Polisi Stiwardiaeth, a'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol diwygiedig i gyd bellach wedi'u mabwysiadu a'u cyhoeddi ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Yna derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar adolygiad o atebolrwydd asedau a roddodd drosolwg o sefyllfa'r Gronfa o ran ei buddsoddiadau seilwaith, a darparwyd diweddariad ar gynnydd y prosiect fferm wynt lleol drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru o dan Fuddsoddiadau Cymdeithasol Gyfrifol.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNODD** Aelodau'r Bwrdd i gydnabod yr wybodaeth wedi'i diweddaru.

**14. <u>MONITRO RISG</u>**

Ystyriodd y Bwrdd y risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a nododd y newidiadau fel y'u nodir yn y Gofrestr Risgiau wedi'i diweddaru.

Cytunwyd i groesgyfeirio'r derminoleg o dan adran Llywodraethu Cofrestr Risgiau'r Gronfa Bensiwn sy'n ymwneud â thryloywder a monitro (yng nghyd-destun Cofrestr Risgiau Partneriaeth Pensiwn Cymru).

**PENDERFYNODD** y Bwrdd nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**15. <u>FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH</u>**

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion Aelodau'r Bwrdd at y cynllun hyfforddi tan fis Hydref 2025 a chytunwyd y byddai'r sesiwn hyfforddi a drefnwyd ar gyfer 18 Hydref yn cael ei wirio (gan mai dydd Sadwrn yw'r 18fed).

## 16. PROSIECTAU ALLWEDDOL – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar y materion canlynol:

- 'Dadansoddiad Bwlch' Cod Cyffredinol y Rheoleiddiwr
- Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau (canllaw cysylltu wedi'i gyhoeddi)
- Datganiadau Buddion Blynyddol (McCloud)
- Ymarfer Gwerthuso Cronfeydd

**'Dadansoddiad Bwlch' Cod Cyffredinol y Rheoleiddiwr**

Darparodd y Bwrdd adborth a fydd yn cael ei gynnwys yn y 'Dadansoddiad Bwlch'. Cytunodd y Bwrdd ei fod yn system lywodraethu effeithiol, gan gynnal ei ddadansoddiad risgiau ei hun sy'n unol â gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau.

(Gofynnodd y Cadeirydd am gopi caled o daenlen y dadansoddiad bwlch)

**Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau (canllaw cysylltu wedi'i gyhoeddi)**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Pensiynau ddiweddariad ar y Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau (PDP) Genedlaethol ers y cyfarfod diwethaf. Nododd y Bwrdd y byddan nhw'n derbyn hysbysiad pan fydd cysylltiad terfynol â'r Dangosfwrdd wedi'i gyflawni. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Heywood drwy weminarau mewn perthynas â datrys meini prawf paru posibl yn ogystal â glanhau a chyfoethogi data.

Cytunwyd i rannu canllawiau paru data PASA gyda'r Bwrdd.

**Datganiadau Buddion Blynyddol (McCloud)**

Darparwyd diweddariad pellach mewn perthynas â McCloud gyda Datganiadau Buddion Blynyddol i'w cyhoeddi erbyn y dyddiad cau Rheoleiddiol, sef 31 Awst 2025 (gydag awdurdodau gweinyddu CPLIL â'r modd i arfer eu disgresiwn i ohirio hyn am flwyddyn arall tan Awst 2026).

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd, wrth fodloni'r Rheoleiddiwr Pensiynau, fod y cynllun wedi'i gymeradwyo drwy awdurdod dirprwyedig yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd at ddibenion cydymffurfio.

**Ymarfer Gwerthuso Cronfeydd**

Cadarnhawyd bod y dyddiad cau ar gyfer darparu data wedi'i fodloni, a bod disgwyl y rownd gyntaf o adborth erbyn diwedd yr wythnos, gyda chanlyniadau cychwynnol i'w derbyn yn ystod mis Hydref.

## 17. MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar y canlynol:

- Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Dreth Etifeddiaeth
- Deddfwriaeth wedi'i chynllunio mewn ymateb i ddyfarniad Virgin Media
- Bil Cynlluniau Pensiwn 2024/25 – y darlleniad cyntaf oedd 5 Mehefin

Nododd y Bwrdd fod yr ymateb i'r ymgynghoriad ar dreth etifeddiaeth wedi'i drafod yn flaenorol ar yr agenda a nododd y diweddariadau mewn perthynas â'r materion eraill.

**18. LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHORFFORAETHOL**

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar yr eitem hon yn gynharach ar yr agenda.

**19. UNRHYW FATERION ERAILL**

- Eitemau diweddaraf o fwletin y Gymdeithas Llywodraeth Leol (nodwyd bod y dolenni i Fwletinau perthnasol y CLlL wedi'u cynnwys ar yr agenda).

- Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd bod y garfan wedi derbyn hyfforddiant ar y newidiadau (Datganiad Cyllido Blynyddol y Rheoleiddiwr Pensiynau, cylchlythyr Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus CThEM) a bod bwletinau'r CLlL yn cael eu hadolygu a'u gweithredu yn ôl yr angen.

**20. DERBYN DIWEDDARIAD AR LAFAR YNGLŶN Â CHYNNYDD 'PROSIECT YR WYDDFA' PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU:**

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Grŵp – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gynnydd Prosiect yr Wyddfa Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cadarnhaodd fod pob un o'r wyth o Awdurdodau Cyfansoddol bellach wedi cymeradwyo adeiladu Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru (IM Co), gan gynnwys ei gyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gael awdurdodiad ffurfiol a'r penodiad i nifer o swyddi allweddol yn unol â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Cydnabuwyd bod cyfarfodydd y Cadeiryddion wedi cyfrannu at lywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Yna cafwyd trafodaeth ynghylch y materion a godwyd ac fe wnaeth y Bwrdd gydnabod a rhoi diolch i'r Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Grŵp – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen am y diweddariadau rheolaidd sy'n cael eu rhoi iddyn nhw a oedd yn dangos tryloywder a threfnau llywodraethu da.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.

**Yr Athro H. Coombs**

**Cadeirydd.**